



PECYN RECRIWTIO

Swyddog Cefnogi Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri

Swydd **lawn amser** (37 awr yr wythnos) neu **ran amser** (yn ddibynnol ar ddymuniad yr ymgeisydd llwyddianus), **cytundeb blwyddyn o hyd**, gyda phosibilrwydd o'i ymestyn yn barhaol.

Dyddiad cau: 4 Tachwedd 2021 **Cyfweliadau: Wythnos yn cychwyn 8 Tachwedd 2021**

Cyfflog: £23,000 - £25,000 pro rata* (yn ddibynnol ar brofiad)

Dyddiad cychwyn: cyn gynted â phosib

CFFI Eryri – Amdanon ni

Mae Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Eryri, y mudiad ieuentid, am benodi Swyddog Cefnogi newydd i'r mudiad. Mae hon yn swydd lawn amser neu ran amser, yn ôl dymuniad yr ymgeisydd, gyda chytundeb blwyddyn o hyd i gychwyn (gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn yn barhaol).

Yn y cyfnod rhyfeddol hwn o her a newid, rydyn ni'n chwilio am unigolyn deinamig, ymroddedig sydd â gweledigaeth, a all gyflawni gwaith dydd i ddydd y mudiad wrth i ni barhau i ail-ddychmygu a siapio dyfodol Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri, gan gadw'n drwm at ein gwerthoedd sylfaenol.

Ers ei sefydlu yn 1943, mae Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri wedi bod yn ganolbwynt amhrisiadwy i filoedd o aelodau ar draws y Sir, sydd yn cynrychioli rhannau o Wynedd a Chonwy. Mae oedran aelodaeth y mudiad yn amrywio o 13 – 30 mlwydd oed, ac mae yna unarddeg clwb lleol yn Eryri: Caernarfon, Dyffryn Madog, Dyffryn Nantlle, Dyffryn Ogwen, Godre'r Eifl, Llangybi, Llanrwst, Porthdinllaen, Rowen, Y Rhiw ac Ysbyty Ifan.

Mae CFFI Eryri, ynghyd â CFFI Ynys Môn, wedi ein tadoli i CFFI Cymru ac yn cyfrannu tuag at waith a gweithgareddau'r mudiad ar lefel Cymru hefyd.

Mae'r mudiad yn cael ei redeg yn ddemocrataidd er budd y bobl ifanc, dan ofal Pwyllgor Gwaith sy'n cynrychioli'r aelodau.

Ynglŷn â'r swydd

Swyddog Cefnogi Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri fydd y prif gyswllt ar gyfer aelodau, swyddogion a ffrindiau'r Mudiad o ddydd i ddydd.

Y Swyddog Cefnogi sydd yn paratoi rhaglen ddatblygu ar gyfer y Ffederasiwn, dan arweiniad y Pwyllgor Gwaith a'r swyddogion sirol, gan gefnogi swyddogion y Sir i drefnu gweithgareddau a gweithrediadau'r Mudiad o flwyddyn i flwyddyn. Gyda chymorth y swyddogion sirol, bydd y Swyddog Cefnogi yn asesu anghenion clybiau ac yn darparu gwasanaethau yn unol a'r anghenion hynny. Maent hefyd yn gyfrifol am

gynnal trefn ddemocrataidd y Mudiad, a meithrin a chynnal partneriaethau gyda mudiadau a chyrrff perthnasol eraill sydd yn gweithredu yn yr un maes.

Mae'n swydd fywiog a chymdiethasol tu hwnt, a chyfle amrhisiadwy i weithio gyda phobl ifanc yng nghefn gwlad Gwynedd (Arfon/Dwyfor) a Dyffryn Conwy er mwyn magu sgiliau oes.

Rydym yn hysbysebu'r swydd hon fel swydd lawn amser neu ran amser, yn ddibynnol ar ddymuniad yr ymgeisydd llwyddianus. Bydd y cyfrifoldebau yn cael eu lleihau fel sydd angen yn ddibynnol ar gyfanswm oriau'r ymgeisydd llwyddianus.

Cyflog a breintiau

Y cyflog ar gyfer y rôl hon yw £23,000 - £25,000 y flwyddyn (pro rata), yn ddibynnol ar brofiad. Bydd y cyflog yn codi fesul £500 (pro rata) y flwyddyn, hyd at £25,000 (pro rata).

Caniateir 25 diwrnod o wyliau (pro rata), yn cynnwys Gwyliau Banc; yn ogystal a system oriau mewn llaw (TOIL), ble mae modd cario hyd at 2 ddiwrnod o TOIL o un mis i'r llall.

Bydd y Ffederasiwn yn cynnig Cynllun Pensiwn NEST i'r swyddog, a delir yn unol â'r cyfraddau cenedlaethol.

Er bod Swyddfa ar gael, mae modd i ddeilydd y swydd weithio o adref rai diwrnodau neu rai cyfnodau, yn dilyn caniatad y rheolwr llinell. Ar gyfer y diben hwn, mae'r Mudiad yn darparu gliniadur, ffôn. iPad ac argraffydd.

Sut i wneud cais

1. **Darllenwch** y wybodaeth yn y pecyn recriwtio hwn a'r swydd ddisgrifiad yn fanwl.
2. **Llenwch y ffurflen gais** er mwyn rhoi gwybod i ni:
 - Pam fod gennych ddiddordeb yn y swydd
 - Manylion eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad a sut y byddent yn berthnasol i waith Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Eryri
 - Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r swydd rydych chi'n ymgeisio amdani
3. Anfonwch eich ffurflen gais at cadeiryddpcaseryri@gmail.com erbyn **12.00 pm, 4 Tachwedd 2021**:

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwn yn asesu'r ceisiadau ac yn gwahodd ymgeiswyr llwyddiannus i gyfweiliad digidol ar **yn ystod yr wythnos yn cychwyn 8 Tachwedd 2021**. Bydd y panel cyfweld yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Staffio; Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith a chynrychiolydd o'r Pwyllgor Cyllid a Staffio.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau o gwbl neu os hoffech gael sgwrs gychwynol, cysylltwch â ni drwy cadeiryddpcaseryri@gmail.com

Mae Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Eryri yn elusen gofrestredig ac yn gweithio dan arweiniad, ac er budd, yr aelodau.

The above is an advertisement for a role where the ability to read, write and speak Welsh is essential.